**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Vikki Howells AS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

19 Ionawr 2024

Annwyl Vikki

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adroddiad Cyfnod 1

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae copi o adroddiad y Pwyllgor, a osodwyd heddiw, ynghlwm wrth y llythyr hwn. Hoffem dynnu eich sylw at yr argymhelliad a ganlyn:

> Argymhelliad 50. Dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad weithio gyda'r Comisiynydd Safonau, y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol. Dylai hyn gynnwys ystyried materion sy'n cynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026.

Os yn bosibl, byddai'n ddefnyddiol cael ymateb ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 26 Ionawr 2024 i alluogi'r Aelodau i fyfyrio arno cyn dadl Cyfnod 1.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English